**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

| Eitem / Item | Dyddiad / Date | |
|---|---|---|
| | 13-04-2026 | |
| Teitl / Title | | Er / For |
| Diweddariad ar Asesu Llesiant Lleol – Cynllun Drafft Methodoleg a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori | | *Trafodaeth a Phenderfyniad* |
| Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues | | |

**Cefndir**

Cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y 9ed o Chwefror ynghylch cynnal Asesiad o Lesiant Lleol. Cytunwyd ar y penderfyniadau allweddol canlynol:

- Cymeradwyodd y BGC y dull o weithio ar y cyd â Sir Gaerfyrddin er mwyn paratoi Asesiad ar y cyd o Lesiant Lleol.
- Datblygu Methodoleg ar y cyd i nodi sut fydd yr asesiad yn cael ei baratoi.
- Datblygu Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y cyd i nodi sut fydd yr ymgyrch ymgysylltu yn cael ei chynnal yn ystod haf 2026 a sut fydd yr ymgynghoriad ar yr Asesiad drafft yn cael ei gynnal yn ystod gaeaf 2026/27.
- Bod aelod-sefydliadau'r BGC yn enwebu cyswllt priodol i ymuno â'r Grŵp Ymgysylltu a'r Grŵp Awduron i helpu i lywio a llunio'r Asesiad.

**Sefyllfa bresennol**

Ers cyfarfod diwethaf y BGC, mae'r paratoadau a'r trafodaethau gyda phartneriaid ar draws BGC Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi mynd rhagddynt. Dyma'r pwyntiau allweddol ers cyfarfod diwethaf y BGC:

- Sefydlwyd Gweithgor Rhanbarthol at y diben o ddatblygu **Methodoleg** ddrafft, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i'w hystyried gan y BGC. Mae'r Fethodoleg yn amlinellu'r dull o gynnal yr Asesiad gan gynnwys sut fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth, sut fyddwn yn bodloni gofynion y canllawiau statudol a sut fyddwn yn strwythuro'r Asesiad i greu dogfen syml ond penodol.

- Mae'r Fethodoleg hefyd yn cynnwys adran **Risgiau, Anawsterau a Chyfyngiadau** sy'n amlinellu'r heriau ar gyfer y dull asesu ar y cyd.

- Sefydlwyd Grŵp Ymgysylltu ac Ymgynghori i ddatblygu'r **Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori** drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 2 er ystyriaeth. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r dull manwl o gynnal yr ymgyrch ymgysylltu ar lesiant rhanbarthol a'r ymgynghoriad ar yr asesiad drafft.

- Cyn bo hir cynhelir y **sesiynau galw heibio cyntaf gyda Llywodraeth Cymru** i drafod y cynlluniau, siarad am anghenion data a sôn am ffyrdd posib o asesu bylchau data. Bydd cynrychiolwyr o Sir Gaerfyrddin (Llinos Evans) a Cheredigion (Tim Bray) yn bresennol. Mae'r rhain yn sesiynau cyswllt pwysig i adolygu'r cynnydd gyda chynrychiolwyr o Dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru.

- Mae'r **amserlen** ddiweddaraf ynghlwm yn Atodiad 3 ac rydym ar y trywydd iawn. Mae dyddiadau arfaethedig yr ymgyrch ymgysylltu bellach wedi'u hychwanegu – mae'r rhain ar gyfer cychwyn yr ymgyrch ar 1 Mehefin a'i gorffen ar 8 Awst. Bydd hyn yn caniatáu amser cyn gwyliau'r haf i gofnodi ymatebion a digon o amser i ddadansoddi'r adborth ac adrodd hyn i BGC unedig Sir Gâr a Cheredigion ym mis Medi.

**Camau Nesaf**
Y camau nesaf fydd dechrau'r adolygiad a'r dadansoddiad o'r data, a dechrau'r ymgyrch lesiant ranbarthol ym mis Mehefin. Yng nghyfarfod nesaf y BGC ar 22 Mehefin rhoddir diweddariad ar y cynnydd ar y camau hyn a chynnydd cyffredinol yr Asesiad.

| Goblygiadau Ariannol / Financial Implications |
|---|
| Ddim yn berthnasol |
| Argymhellion / Recommendations |
| **1** Bod y BGC yn cymeradwyo'r Fethodoleg<br>**2** Bod y BGC yn cymeradwyo'r Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori<br>**3** Bod y BGC yn cymeradwyo'r amserlen ddiweddaraf |
| Atodiadau / Attachments |
| Atodiad 1 – Methodoleg ddrafft<br>Atodiad 2 – Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori drafft<br>Atodiad 3 – Amserlen ddiweddaraf |
| Swyddog Adrodd / Reporting Officer |
| |